DATGANIAD I'R WASG
Dydd Gwener 4 Mehefin 2010

EISTEDDFOD URDD GOBAITH CYMRU ABERTAWE 2011

'Beth sydd mor arbennig am Abertawe?' fydd y cwestiwn a ofynnir ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron y prynhawn yma. Rhai o bobl ifanc Abertawe fydd yn ateb y cwestiwn, a hynny mewn cyflwyniad blaengar a brwdfrydig am 5.15yp.

Disgyblion Ysgol Bryn Tawe, Ysgol Gyfun Gwyr ac Ysgol Ystalyfera sydd wedi creu'r cyflwyniad, a byddant yn estyn croeso cynnes i Eisteddfod yr Urdd 2011 a gynhelir yn Felindre, Abertawe rhwng 30 Mai a 4 Mehefin.

Bydd y disgyblion ysgol uwchradd yn ymuno â phlant ysgolion cynradd lleol i roi blas i'r gynulleidfa o'r hyn fydd yn eu haros yn Abertawe ymhen y flwyddyn ac yn mynd â hwy ar daith o amgylch y ddinas.

Dyfrig Ellis, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod a Phennaeth Ysgol Lon Las yn ogystal â Neil Rosser sydd wedi cyfansoddi'r caneuon i'r cyflwyniad gyda chyfraniadau gan Berian Lewis a Huw Dylan Owen. Mae'r criw, o dan gyfarwyddyd Laurel Davies a Helen Wyn, wedi treulio oriau'n perffeithio'u perfformiad dros y misoedd diwethaf, fel yr eglura Dyfrig Ellis:

''Rwyf wedi mwynhau gweithio gyda'r criw talentog yma'n fawr iawn a hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am eu hymroddiad a'u gwaith caled dros y misoedd diwethaf. Mae gwirfoddolwyr eisoes wrthi'n codi arian ac ymwybyddiaeth yn lleol ac mae trigolion Abertawe yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'r Eisteddfod i'r ardal flwyddyn nesaf.''

Mae Gravells, cwmni teuluol lleol, a'r ddelwriaeth Renault hynaf ym Mhrydain wedi rhoi car yn wobr raffl i Eisteddfod yr Urdd 2011. Mae ticedi eisoes ar werth ar gyfer y Kia Picanto pum drws a bydd y raffl yn cael ei thynnu ddydd Gwener, 3 Mehefin ar faes Eisteddfod yr Urdd Abertawe 2011.

Meddai Jonathan Gravell:

''Rydym yn falch iawn o fedru cefnogi Eisteddfod yr Urdd 2011 ac yn bles iawn gyda'r bartneriaeth lwyddiannus rydym wedi sefydlu gyda'r mudiad dros y blynyddoedd. Hoffwn ddymuno'n dda iawn i Eisteddfod yr Urdd 2011 ac edrychwn ymlaen at gydweithio â'r Urdd dros y flwyddyn nesaf.''

Ychwanegodd Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau:

''Hoffwn ddiolch i Dyfrig Ellis a gweddill y tîm am eu cydweithrediad yn ogystal â Jonathan Gravell am y rhodd hael. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â hwy yn ogystal â phobl leol Abertawe dros y deuddeg mis nesaf. Rydym hefyd yn cydweithio â Chyngor Abertawe sy'n gefnogol iawn i'r Eisteddfod. Mae Felindre ar gyrion y ddinas ac o fewn cyrraedd i'r M4. Mae lleoliad yr ŵyl mewn man hynod gyfleus a'n gobaith yw y bydd hynny'n cyfrannu tuag at Eisteddfod gofiadwy yn 2011.''

Diwedd
Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

DATGANIAD I'R WASG
Friday 4 June 2010

SWANSEA URDD NATIONAL EISTEDDFOD 2011

'What makes Swansea so special?' will be the question asked on the stage of the Urdd National Eisteddfod in Llanerchaeron this afternoon. Young people from Swansea will deliver the answer, in an innovative and enthusiastic presentation at 5.15pm.

The presentation, created by pupils from Ysgol Bryn Tawe, Ysgol Gyfun Gwyr and Ysgol Ystalyfera will extend a warm welcome to the Urdd Eisteddfod which will be held in Felindre, Swansea between 30 May and 4 June 2011.

The secondary school pupils will join children from local primary schools to give the audience a taste of what's to be expected in Swansea in a year's time and take them on a guided tour of the city.

Dyfrig Ellis, Chair of the Eisteddfod local Executive Committee and Headmaster at Ysgol Lon Las and Neil Rosser have written the songs for the presentation, with additional contributions from Berian Lewis and Huw Dylan Owen. The crew, directed by Laurel Davies and Helen Wyn, have devoted hours of their time to the production over the last few months, as Dyfrig Ellis explains:

''I've enjoyed every minute of working with these talented children and young people and I would like to thank each and every one of them for their commitment and dedication in recent months. Volunteers are already hard at work raising funds and awareness and the people of Swansea are eagarly looking forward to welcoming the Eisteddfod to the area next year.''

Gravells, a local family run business, and the oldest Renault dealership in the UK have donated a brand new car to the 2011 Urdd Eisteddfod. Tickets have already gone on sale for the 5 door Kia Picanto, and the raffle will be drawn on 3 June 2011 on the Urdd Eisteddfod Maes in Felindre.

Says Jonathan Gravell:

"We are very glad to be able to contribute to the 2011 Urdd National Eisteddfod and are extremely proud of the successful partnership we have established with the organisation over the years. We would like to wish the 2011 Urdd Eisteddfod preparations well and we look forward to working with the Urdd over the coming year.''

Aled Siôn, the Eisteddfod Director added:

''I would like to thank Dyfrig Ellis and his team for their co operation as well as Jonathan Gravell for offering us this wonderful prize. We're looking forward to working with them as well as the local people of Swansea over the next twelve months. We are also working in partnership with Swansea Council who are extremely supportive of the Urdd National Eisteddfod. Felindre is situated on the outskirts of the city and a short drive from the M4. The location of the festival is extremely convenient and will hopefully contribute towards a memorable Eisteddfod in 2011.''

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.